# PWYLLGOR PENSIYNAU, 22.03.11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd John W. Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorydd Trevor Edwards, Simon Glyn, John G. Jones, W. Tudor Owen

**Aelodau Cyfetholedig:-** Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

<u>Marwolaeth</u>
Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth disymwth y Cynghorydd J.R. Jones bore heddiw a chydymdeimlodd â'r teulu yn eu colled. Safodd y pwyllgor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2010 fel rhai cywir.

**3. YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi ei bod yn ofynnol adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2011. Fel rhan o'r adolygiad yma, mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorydd y gronfa a gyda unrhyw bersonau eraill yr ystyrir yn addas.

Nododd y penderfynodd y pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2010 ar y polisiau canlynol –
a) Y dylai'r enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na gilt fod yn 1.4%, sef yr un fath ag yr oedd ym mhrisiad 2007.
b) Cadw at 20 mlynedd fel cyfnod ar gyfer adfer diffyg y cyrff statudol a 15 mlynedd ar gyfer Coleg Menai a Choleg Llandrillo.
c) Ymestyn y cyfnod ar gyfer rhannu codiadau cyfraniadau'r cyflogwyr tros chwe blynedd ar gyfer yr achosion hynny lle bo'r cynnydd yn y prisiad tros 1.5% ond os rhoddir cyfleustra o'r fath y dylid sicrhau codiad o leiaf 0.5% y flwyddyn tan gyrraedd y codiad llawn.

Ar 14 Rhagfyr 2010, anfonwyd llythyr at bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, at actiwari ac ymgynghorydd y gronfa ac at gynrychiolwyr Unsain, TGWU a'r GMB, yn ymgynghori ar y

tri polisi uchod. Gofynnwyd iddynt ymateb gyda unrhyw sylwadau erbyn 28 Ionawr 2011. Derbyniwyd un ymateb i'r ymgynghoriad gan Gyngor Tref Abergele.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, mae rhai cyflogwyr wedi nodi eu bod yn ystyried dyfodol eu haelodaeth o'r gronfa. Ers paratoi'r adroddiad derbyniwyd gwybodaeth bod Mantell Gwynedd wedi penderfynu cau'r cynllun i aelodau newydd ac oherwydd hyn yn gorfod tynnu allan o'r pŵl o gyflogwyr bach, a bydd angen newid y Datganiad Strategaeth Cyllido i adlewyrchu hynny ond heb newid lefel arfaethedig cyfraniadau cyflogwyr eraill cyn prisiad 2013.

Gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf parthed codiadau ym mhensiwn unigolion. Mewn ymateb, addawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n cyfleu'r wybodaeth i'r aelod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido (Atodiad A o'r adroddiad).**

## 4. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH BUDDSODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Buddsoddi Blynyddol – hyn yn unol â Chyfarwyddyd Statudol y Cynulliad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2011/12 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2011/12 gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2011.

Nododd bod y gronfa wedi rhoddi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes"

Mewn perthynas â llif arian y gronfa bensiwn, nododd y swyddog bod mewnlif net o arian i'r gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol a chostau. Pan fydd lefel yr arian tros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi'r gronfa. Fel rheol, bydd oddeutu £5m yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol, fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rhai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod tros £20m.

Ar hyn o bryd mae holl arian tros ben y gronfa'n cael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y gronfa tros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian tros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg bod cronni'n caniatau manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartion er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Tynnwyd y banciau Sbaeneg ac ychwanegir chwe banc at y rhestr. Newidiodd dau fanc eu henwau a diwygiwyd hyn ar y rhestr. Cymeradwywyd yr ychwanegiadau gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2011 a bydd y rhestr newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi'r gronfa ar gyfer setliadau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2011/12 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A o'r adroddiad) a'r rhestr o wrthbartion (Atodiad C o'r adroddiad).**
**b) Gwneud cais i'r Cyngor ganiatau i arian tros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2011 ymlaen.**

## 5. STRATEGAETH BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 15 Chwefror 2011 yn Llundain pryd y derbyniwyd cyflwyniad gan Partners Group ar berfformiad y buddsoddiadau ecwiti preifat hyd yma. Cyflwynwyd papur ar ymrwymiadau i'r rhaglen ecwiti preifat yn y dyfodol gan gynrychiolydd o Hymans Robertson. Dosbarthwyd y papur i'r aelodau ym mis Chwefror 2011 gyda'r papurau ar gyfer cyfarfod y Panel Buddsoddi.

Nododd mai dyraniad y Gronfa Bensiwn yw 5% ar gyfer ecwiti preifat ac nid yw'r buddsoddiadau wedi cyrraedd y ganran eto. Yn wyneb natur y math hwn o fuddsoddiad ac er mwyn cyfarfod â strategaeth buddsoddi'r gronfa, mae angen ymrwymo arian cyson i'r dosbarth buddsoddi hwn a'r argymhelliad a gafwyd oedd y dylid buddsoddi 15m ewro (oddeutu £12.6m) yng Nghronfa Global Value 2011 a $7m (oddeutu £4.4m) yng Nghronfa Emerging Markets 2011. Barn y Panel Buddsoddi oedd bod angen gwneud hyn. Gofynnodd am gadarnhad y pwyllgor er mwyn symud ymlaen a gwneud yr ymrwymiadau.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r dyraniad yn unol â barn y Panel Buddsoddi.**

## 6. ADRODDIAD HUTTON

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gasgliadau'r Comisiwn Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a gyhoeddwyd ar 10 Mawrth 2011 yn cynnig argymhellion i'r Llywodraeth ar drefniadau pensiwn i'r dyfodol i'r sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys 27 o argymhellion ar ddiwygio trefniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Nododd y prif argymhellion fel a ganlyn –
a) Symud o strwythur cyflog terfynol i enillion ail-brisiad cyfartal gyrfa (CARE) i bob cynllun, gyda'r indecs ar fuddion CARE tra mewn gwasanaeth pensiynadwy'n gysylltiedig ag enillion yn hytrach na phrisiau.
b) Dylid cysylltu oedran pensiwn arferol aelodau gyda'r oedran pensiwn gwladol.
c) Cyflwyno "nenfwd cost" a fyddai'n gosod cyfyngiad uchaf ar y swm wedi ei glustnodi gan y Llywodraeth ar gyfer pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn y tymor hir, gyda unrhyw doriad o'r nenfwd yn sbarduno mecanwaith awtomatig er mwyn dod â chostau i lawr.
ch) Amddiffyn hawliau wedi eu cronni gan aelodau presennol gan gynnwys cadw'r cyswllt gyda chyflog terfynol ar gyfer buddion a gronnwyd yn y cynlluniau presennol.
d) Cyflwyno fframwaith rheoleiddio ffurfiol newydd er mwyn sicrhau adolygiad annibynnol o'r drefn lywodraethol o'r cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, o bosibl gan y Rheolydd Pensiynau.

Hysbysodd y swyddog ymhellach bod yr adroddiad yn cymryd yn ganiataol y byddai'r Llywodraeth yn gweithredu ar gynigion a oedd ganddynt ar wahân fel rhan o'r ymateb i'r diffyg cyllidebol sydd ganddynt i weithwyr sy'n rhan o gynlluniau pensiwn yn y sector

gyhoeddus i dalu 3% yn fwy tuag at y cynlluniau. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar weithwyr sydd ar gyflogau isel. Cyfeiriodd at yr effaith anghymesur y gallai hyn greu o fewn gweithlu'r Cyngor. Er enghraifft, gallai gweithwyr cymdeithasol sy'n talu cyfradd o 6.8% ar hyn o bryd weld cynnydd i 11% o'i gymharu ag athrawon sydd ar gyflogau uwch ac ar gyfradd o 9%. 'Roedd yn fwriad i'r mater gael ei sefydlu'n derfynol yr wythnos hon gan y Llywodraeth ar ddiwrnod y gyllideb, ond deellir erbyn hyn y bydd yn cael ei ohirio tan yr haf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod gan y corff dan sylw hawl i gadw ei faterion ariannol neu fusnes yn gyfrinachol. Mae'r budd cyhoeddus o barchu'r cyfrinachedd hwnnw yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o ddeuai o ddatgelu'r wybodaeth.**

## 8. THEATR HARLECH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid bod Theatr Harlech yn un o'r cyrff a ganiateir i Gronfa Bensiwn Gwynedd ac yn rhan o'r pŵl i gyflogwyr llai. Erbyn hyn, nid oes gweithwyr cyflogedig gan y theatr ac felly mae'r diffyg sy'n perthyn i'r cyn weithwyr yn daladwy. Rhoddodd fanylion am y diffyg a gyfrifwyd gan Hymans Robertson i'r theatr.

Nododd bod y theatr yn parhau i fodoli fel corff ac eisiau parhau i weithredu. Nid yw'r busnes mewn sefyllfa i dalu'r diffyg llawn a byddai canlyniad unrhyw gais i orfodi taliad yn dirwyn y busnes i ben. Ni fyddai'r Gronfa Bensiwn yn derbyn mwyafrif yr arian dyledus os yw hyn yn digwydd.

Derbyniwyd cais gan y theatr i ymestyn ad-daliad o'r diffyg tros gyfnod o 15 mlynedd. Cynhelir cyfarfod rhwng swyddogion y Cyngor a Theatr Harlech ar 1 Ebrill 2011 er mwyn trafod y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Pennaeth Cyllid i negodi setliad gyda Theatr Harlech yn y cyfarfod ar 1 Ebrill 2011 ac i weithredu'n briodol parthed cytuno cyfnod ad-dalu er budd y gronfa ar sail ei asesiad risg o sefyllfa busnes y theatr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.00pm